

# MANTELL

NEWYDDLLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 52  
Chwefror 2011

## CYNNWYS

O Mantell	2
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	3
Plant a Phobl Ifanc	4
Canolfan Wirfoddoli	5
Newyddion	6
Cyfleoedd Ariannu Y Porth Ymgysylltu	7
Digwyddiadau a Hyfforddiant	8

**Mwy o  
wybodaeth  
ynghyd â'r  
newyddion  
diweddaraf i'w  
gael ar ein  
gwefan!**

## UNED SYMUDOL - CRONFA ARLOESI IECHYD GWLEDIG

Bu Mantell Gwynedd yn llwyddiannus yn eu cais i gael Uned Symudol er mwyn hybu gwasanaethau'r Trydydd Sector yn ein hardaloedd gwledig. Bydd yr uned yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth rhwng Mantell Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gall mudiadau logi'r uned ar gyfer digwyddiadau, unai ar eu pennau eu hunain neu mewn cydweithrediad â mudiadau eraill. Bydd tudalen arbennig ar gyfer yr uned ar wefan Mantell ynghyd â chalendar llogi/defnydd.



Os oes gennych ddi-ddordeb mewn llogi'r uned, cysylltwch â **Medwyn** ar **01286 672626** neu [ymholiadau@mantellgwynedd.com](mailto:ymholiadau@mantellgwynedd.com)



## ADNODDAU A DEFNYDD O'R UNED

Gliniadur, argraffydd lliw diwifr, band llydan symudol, teledu 32" a chwaraewr DVD, gofod arddangos, cegin fechan, a thoiled. Ystafell i gynnal ymgynghoriadau cyfrinachol neu ar gyfer profion gwaed, pwysau gwaed ac ati. Uned ddelfrydol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ein cymunedau gwledig.

## HOFFI DREIFIO A CHYFARFOD POBL?

Oes gennych chi diddordeb mewn gwirfoddoli? Mae Mantell Gwynedd yn chwilio am wirfoddolwyr i ddreifio'r Uned Symudol a helpu gyda rhannu

gwybodaeth.

Os oes gennych ddi-ddordeb cysylltwch â Rhianon neu **Medwyn** ar **01286 672 626**. (Swyddfa Mantell Gwynedd).



**STAFF MANTELL  
GWYNEDD**

**CAERNARFON**

**Prif Swyddog:** Bethan Russell Williams

**Tim Gwasanaethau**

**Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym:**

Sioned Llwyd Larsen

**Swyddog Grantiau a Chefnogaeth:**

Delyth Vaughan

**Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc:**

Carwyn Humphreys

**Cydlynnydd Trydydd Sector:**

Medwyn Williams

**Tim Cyllid a Gweinyddol**

**Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth**

**Tim Cyllid a Gweinyddu:**

Ceren Williams

**Swyddog Gweinyddol:**

Bronwen Rowlands

**Cynorthwy-ydd Gweinyddol:**

Tracy Lynne Rotheram

**Tim Canolfan Wirfoddoli**

**Cydlynnydd Gwirfoddoli:**

Rhianon Jones

**Swyddog Gwirfoddoli:**

Iola Till

**Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid:**

Mirain Roberts

**Swyddog Porth Ymgysylltu:**

Carys Williams

**DOLGELLAU**

**Tim Cyllid a Gweinyddol**

**Cynorthwy-ydd Gweinyddol:**

Ellen ap Dafydd

**Tim Canolfan Wirfoddoli**

**Swyddog Gwirfoddoli:**

Ann Angharad Fleming

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **15 Ebrill 2011**.

Danfongwch neu e-bostiwrch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau e-bost:

**EllenapDafydd@mantellgwynedd.com**  
Ffôn **01341 422 575**

Nodyn gan y **Prif Swyddog**



Wrth i'r newyddlen fynd i'r wasg mae'r newydd yn torri am Gyngor Dinas Lerpwl yn tynnu allan o gynllun peilot y Gymdeithas

Fawr. 'Roedd Lerpwl yn un o bedwar cyngor a ddewiswyd i beilotia cynlluniau'r Gymdeithas Fawr.

Daeth datganiad gan Joe Anderson, arweinydd Cyngor Lerpwl, yn dweud na fedrai'r cyngor bellach fod yn rhan o gynllun peilot y Gymdeithas Fawr oherwydd fod cyngor y ddinas yn wynebu toriadau o £100m i grantiau grwpiau a mudiadau gwirfoddol. Mae'r datganiad yn digwydd ar yr un amser a mae Mr Nat Wei, "tsar" y Gymdeithas Fawr ar ran y llywodraeth, hefyd yn dweud nad oes ganddo ef chwaith yr amser angenrheidiol i wneud yr holl waith gan nad yw yn cael tâl am wneud y gwaith fel "tsar", a'i fod yntau felly yn lleihau'r amser mae yn buddsoddi yn y cynllun.

Mae hyn i gyd yn dilyn datganiad swyddogol wnaed llynedd gan y Fonesig Suzi Leather, Cadeirydd y Comisiwn Elusennau, ddywedodd fod grwpiau gwirfoddol yn wynebu toriadau o £5bn ac y byddai toriadau o'r maint yma yn tansilio holl gynlluniau'r Gymdeithas Fawr.

Yng Nghymru mae'r darlun yn un go debyg. Yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru llynedd dywedodd y Prif Weinidog Carwyn Jones y byddai yn well gan Lywodraeth y Cynulliad gael ei feirniadu ar ei weithredoedd. Hyd yn hyn mae 'r llywodraeth wedi diogelu nifer o gronfeydd ariannol sydd o fudd i'r Trydydd Sector ac felly yn cydnabod rôl allweddol sydd gan y trydydd sector i chwarae mewn cyfnod o argyfwng economaidd.

Yr hyn sydd yn rhaid i ni fod yn

ymwybodol ohono yn y trydydd sector yw fod 50% o gyllid y trydydd sector yn dod trwy'r sector gyhoeddus felly mae toriadau sector gyhoeddus yn cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau'r trydydd sector.

Y gwir amdani yw y bydd y sector gyhoeddus yn debygol iawn o ddiogelu eu hadnoddau eu hunain ar draul cyllid grwpiau trydydd sector. Felly tra mae Llywodraeth y Cynulliad yn warchodol, ble fo'n bosib, o'r trydydd sector, mae ein brwydrau yn debygol o fod mewn manau eraill yn llawer nes at adref. Yn wyneb bygythiadau o doriadau mae yn dda adrodd bod rhai cronfeydd megis y Loteri Fawr yn clustnodi cronfeydd penodol ar gyfer y trydydd sector. Daeth datganiad wythnos ddiwethaf bydd cronfa Llais y Bobl yn gyfyngedig i geisiadau o'r sector trwy'r Cynghorau Gwirfoddol fel Mantell. Er nad yw'r manylion llawn i law eto bydd oddeutu £12m ar gael i ariannu prosiectau fydd yn rhoi lle amlwg i lais dinasyddion mewn cynllunio a darparu gwasanaethau. Byddwn yn rhyddhau manylion am y gronfa ar ein gwefan a thrwy ein rhwydweithiau dros y misoedd nesaf. Cadwch olwg amdani. Mae yma neges cadarnhaol pan mae cronfeydd fel y Loteri yn clustnodi arian yn benodol ar gyfer y trydydd sector.

Fel y gwelwch o'r newyddlen mae yna bethau positif yn parhau i ddigwydd ar hyd a lled y sir o fewn y sector er bod y cyd-destun yn un heriol a dweud y lleiaf. Fodd bynnag mae'r straeon a'r prosiectau a welir yn y newyddlen yn epitomeiddio ein cryfderau fel sector i allu goroesi bygythiadau ac anawsterau lu - rhinweddau hanfodol yn y math o gyfnod sydd ohoni.

Tan tro nesa,

**Bethan**

**HAFAL****Cefnogi Adferiad o Iechyd Meddwl**

Mae grŵp hunan gymorth newydd wedi ei sefydlu ym Mhorthmadog. Galwch heibio Arosfa, 110 Stryd Fawr, Porthmadog am 1.30 o'r gloch ar ddydd Gwener am sgwrs a phaned. Cyfle i dderbyn gwybodaeth a chefnogaeth, rhannu profiadau a dysgu dulliau o ymdopi â'ch cyflwr. Am fwy o wybodaeth **01766 513800**.

**EDIT BANGOR**

Mae EDIT Bangor yn grŵp hunangymorth i bobl gydag anhwylderau bwyta a gofalwyr, sydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda BEAT. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob yn ail wythnos ar Ddydd Llun rhwng 7 a 9yh ac yn cynnig amgylchedd cefnogol i unigolion rannu teimladau, profiadau a phryderon. Mae EDIT Bangor yn croesawu pobl gydag unrhyw anhwylder bwyta ac mae'r amcanion yn hybu adferiad. Mae'r grŵp yn darparu adnoddau i helpu unigolion gyda'r broses o wella. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r grŵp a'r cyfarfodydd, cysylltwch ag **Emma** ar **07514400213** ar Ddydd Llun rhwng 5 a 7yh neu **Izzy** ar **07541291289** ar Ddydd Iau rhwng 7 a 9yh. E-bostiwrch [edit.bangor@hotmail.co.uk](mailto:edit.bangor@hotmail.co.uk) neu chwilio am 'EDIT Bangor' ar Facebook.

**Prosiect Cynnwys**

Mae'r prosiect yma yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau iechyd meddwl oedolion. Mae hwn yn wasanaeth annibynnol ac mae gwybodaeth cleientiaid yn gyfrinachol. Mae'r prosiect yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr drwy:

- Gynnal cyrsiau anwytho a hyfforddiant
- Gynnig gwybodaeth a chefnogaeth
- Ad-dalu treuliau lle bo hynny'n gymwys
- Newyddlenni a chyfarfodydd rhwydwaith

Mae Cynnwys am **ddatblygu ymwybyddiaeth a chysylltiadau yn Ne Gwynedd** – am fwy o wybodaeth ffoniwch **Lucy** neu **Paul** ar **01248 363451**

**RHWYDWAITH  
IECHYD, GOFAL  
CYMDEITHASOL  
A LLES**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Rhwydwaith ym Mhorthmadog ar yr 20ed of Ionawr 2011 a daeth criw da i drafod a chyfrannu yn y sesiwn. Codwyd nifer o faterion a phryderon penodol ar y newidiadau oedd ar y gweill a thoriadau ariannol tebygol sydd yn wynebu mudiadau gwirfoddol. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar unigolion, eu teuluoedd a'u Gofalwyr. Bydd yr Adborth yma yn cael ei gyflwyno i'r swyddogion perthnasol o fewn y sefydliadau.

**CLWB CODI CALON**

Os ydych chi wedi cael eich effeithio gan ganser mewn unrhyw ffordd mae croeso i chi ymuno â Chlwb Codi Calon. Bydd cyfle i chi ymgymryd â nifer o weithgareddau efo'r clwb a mynd ar deithiau ayb. Mae'r clwb yma yn cyfarfod ar Ddydd Gwener olaf o bob mis am 1:00 o'r gloch y prynhawn yn Ffestri Ebeneser, Y Ffôr, Pwllheli. Am fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â **Mary Evans** ar **01766 771062**

**Siop Codi Ymwybyddiaeth**

Bydd nifer o fudiadau Trydydd sector sy'n ymwneud a'r maes iechyd yn rhannu Siop yng Nghanolfan Deiniol, Bangor o **Chwefror 28ain** tan **Mawrth y 4ydd** o 10 y bore tan 4 y pñawn, croeso i chi alw draw.

**Lansiad Uned Symudol - Mantell Gwynedd**

Am 3 o'r gloch y prynhawn ar **Mawrth 1af**, bydd Mrs Mary Burrows, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn lansio'r uned symudol yn swyddogol ar y stryd fawr ym Mangor. Os ydych yn y cyffiniau cofiwch alw draw.

## Newyddion Clebran



Gwasanaeth trwy Barnardo's ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yng Ngwynedd i leisio'u barn ar y gwasanaethau maent yn eu defnyddio yw *Clebran*. Gwahoddwyd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, i gyfarfod â phlant a phobl ifanc Ysgol Hafod Lon ar y 9fed o Fawrth. Bydd disgyblion ac aelodau *Clebran* yn cael cyfle i drafod yr hyn sydd yn dda yn eu bywydau a'r problemau sydd yn eu hwynebu. Hefyd, cynhelir digwyddiad CCNUK (Care Coordination Network UK) ar y 10fed o Fawrth yn Venue Cymru Llandudno. Bydd aelodau *Clebran* yn hwyluso'r digwyddiad gyda chymorth eu gweithwyr allweddol yng Ngwynedd. Am fwy o fanylion, cysylltwch â **Julie Mair (01286) 675847**.



## Cymorth i Ferched Ardal Arfon

Mae Cymorth i Ferched Ardal Arfon yn cynnig rhaglen 6 wythnos "Perthynas Iach" i bobl ifanc rhwng 15-24 oed. Amcanion y rhaglen yma yw i bobl ifanc ragweld ac adnabod perthynas treisgar yn y dyddiau cynnar. Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach am y cwrs mae croeso ichi gysylltu Sarah neu **Dawn** a'r **01248 679 077**. Cynigir y cwrs i grŵp o bobl ifanc neu un i un.

# Gwirfoddolwyr y Mileniwm - Llwyddiannau

Llwyddiannau chwech gwirfoddolwr ifanc ar gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm.

**Erin Jones** - tystysgrif 50awr o wirfoddoli gydag Ysgol Pendalar ag Ysgol Dyffryn Nantlle.

**Erin Pollard** - tystysgrif 50awr o wirfoddoli gydag Ysgol Hendre ag Ysgol Dyffryn Nantlle.

**Hywyn Rhys Foxhall** - tystysgrif am 50 awr, 100 awr a thystysgrif rhagoriaeth am 200 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gyda Air Training Corps a Siop Ambiwlans Awyr Caernarfon.

**Mathonwy Llwyd** - tystysgrif 50awr a 100awr o wirfoddoli gydag Ysgol Pendalar ag Ysgol Carmel.

Llongyfarchiadau hefyd i:

**Mererid Williams** - tystysgrif 50 awr o wirfoddoli. Gwirfoddoli gydag Ysgol Hafod Lon.

**Ryan Alexander Simmens** - tystysgrifau 50 a 100 awr o wirfoddoli. Yn rhoi ei amser i CIP, Cynllun chwaraeon 5x60 a Choleg Meirion Dwyfor.

Da iawn chi.



Erin Jones



Erin Pollard



Mathonwy Llwyd



Hywyn Rhys Foxhall

Copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:  
**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)** ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan  
Mantell Gwynedd - [www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)

# Cystadleuaeth Tynnu Lluniau

CYFLE I ENNILL HAMPER

Eleni eto, mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn gwahodd unigolion a / neu



fudiadau i anfon llun sydd yn cyfleu GWIRFODDOLI yng Ngwynedd. Rydyn ni'n chwilio am luniau o bobl yn gwirfoddoli, gallant fod o unrhyw oed, yn gwneud unrhyw weithgaredd. Bydd detholiad o'r lluniau yn cael eu harddangos yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr 2011.

Gall unrhyw un, o unrhyw oed, gystadlu, ond mae'n rhaid

- i'r ffotograffydd gael caniatâd y rhai fydd yn y llun cyn ei anfon atom
- anfon 'ffurflen cystadlu' (ar gael o'r Ganolfan Wirfoddoli) gyda phob llun.

Canllawiau llawn ar gael o'r swyddfa - cysylltwch â'r **Ganolfan Wirfoddoli 01286 672626**, neu [gwirfoddoli@mantellgwynedd.com](mailto:gwirfoddoli@mantellgwynedd.com)

## Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn 2011

Cymru 2011 - galw am enwebiadau i wobrwyo gwirfoddolwyr  
Oes yna unigolyn ysbrydoledig yn eich cymuned? Neu grŵp o bobl sy'n gweithio'n galed i helpu eraill ac sy'n rhoi'n hael o'u hamser i wella bywyd pobl eraill? Os felly - dyma eich cyfle chi i'w henwebu ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2011!

Mae dewis o bum categori sef:-

- person ifanc dan 25,
- oedolyn (25 oed i fyny)
- gwirfoddolwr gwyrdd
- ymddiriedolwr
- grŵp gwirfoddol (sy'n cynnwys o leiaf 2 berson)

Y llynedd, derbyniwyd bron i 200 o enwebiadau drwy Gymru, a phump ohonynt o Wynedd. Bydd pawb a enwebir o Wynedd yn cael gwahoddiad i ddod i'r "Te Dathlu a Diolch" a gynhelir yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr 2011 ym mis Mehefin pan gant eu cyflwyno gyda'u tystysgrifau. Meddyliwch am ychydig, ond peidiwch ag oedi oherwydd rhaid i'r enwebiadau gyrraedd CGGC, Caerdydd erbyn **15fed Ebrill 2011**. Am ragor o fanylion a/neu ffurflenni enwebu cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd: **01286 672626**, [gwirfoddoli@mantellgwynedd.com](mailto:gwirfoddoli@mantellgwynedd.com)) neu [www.cggc.org.uk](http://www.cggc.org.uk)

### BLWYDDYN GWIRFODDOLI EWROP 2011

Mae 2011 wedi'i  
henwebu yn  
Flwyddyn



Gwirfoddoli Ewrop. Mae hwn yn gyfle cyffrous i fudiadau gwirfoddol ledled yr UE ddod ynghyd i ddathlu gwirfoddoli, ac i drafod pa mor bwysig yw gwirfoddoli yn lleol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol.

## EILIAD GYDA MUDIAD

Ar 1af o Ionawr 2011, unodd pedair undeb credyd yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys **Undeb Credyd y Llechen** sydd yn weithredol yng Ngwynedd a Môn, i ffurfio Undeb Credyd Gogledd Cymru. Buom yn sgwrsio gyda Alistair James – Rheolwr Swyddfa Cynorthwyol, sydd gyda chyfrifoldeb am wirfoddolwyr yn yr ardal. Gyda llaw, drwy wirfoddoli y dechreuodd cysylltiad Alistair gyda'r mudiad yn wreiddiol.

### Undeb Credyd y Llechen

#### Beth yw eich nod?

- Darparu dewis amgen ymarferol i wasanaethau ariannol traddodiadol
- Cyfrannu at ddatblygu cymunedau drwy hybu cyd-weithio.
- Hyrwyddo sgiliau rheoli arian drwy annog arferion da wrth drin arian.

#### Nodwch rai tasgau mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud i gynorthwyo'r mudiad

Delio gydag ymholiadau, casglu arian pobl, cynnal cyfrifon aelodau, bancio arian yn ogystal â chymryd rhan fwy strategol o fewn y mudiad drwy fod yn Gyfarwyddwyr y Bwrdd, neu'n aelod o Fforwm lleol.

#### Tua faint o wirfoddolwyr sydd gennych yn eich cynorthwyo ar hyn o bryd?

Mae tua 60 o bobl yn gwirfoddoli yng Ngwynedd a Môn, ond gallwn wneud gyda rhagor!

#### Sut ydych yn denu gwirfoddolwyr?

Mae y rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr yn dod atom drwy'r Ganolfan Wirfoddoli neu drwy'r pwyntiau casglu arian lleol.

#### Unrhyw uchafbwynt?

Mae'n werth nodi'r cynnydd anhygoel a wna rhai o'r gwirfoddolwyr ar ôl dechrau gyda'r mudiad. Datblygodd un person i fod yn swyddog benthyciadau, ac mae un arall wedi datblygu i fod yn archwiliwr mecanwaith mewnol yr undeb credyd erbyn hyn.

## Cyfrifiad 2011: 27 Mawrth 2011

Cynhelir y cyfrifiad nesaf ar 27 Mawrth 2011, pan fydd Swyddfa Ystadegau Gwladol yn anfon holiaduron i tua 25 miliwn o gartrefi i'w llenwi.

Mae'r cyfrifiad yn holi am waith, iechyd, hunaniaeth genedlaethol, dinasyddiaeth, cefndir ethnig, addysg, ail gartrefi, iaith, crefydd, statws priodasol ac ati. Yna caiff yr ystadegau eu defnyddio i greu darlun o'r gymdeithas sydd ohoni heddiw.

Mae'n hawdd. Atebwch ychydig o gwestiynau amdanoch chi eich hun a'r bobl sy'n rhannu'ch cartref ar ddiwrnod y cyfrifiad, 27 Mawrth 2011. Bydd popeth a rannwch yn y cyfrifiad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol a'i ddefnyddio dim ond er mwyn creu ystadegau. Ni fydd Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol gydag unrhyw adran arall o'r



llywodraeth nac unrhyw sefydliad arall.

Byddwch yn gallu ei wneud ar lein neu drwy'r post ond bydd yn rhaid i chi ei wneud.

Rhaid i'r cyfrifiad gynnwys pawb er mwyn helpu i lunio'r dyfodol - a dyma fydd eich cyfle chi i wneud gwahaniaeth.

Am ragor o wybodaeth ewch i [www.cyfrifiad.gov.uk](http://www.cyfrifiad.gov.uk)

## Oes gen ti syniad busnes? Wyt ti'n unigolyn neu grŵp?

### Os felly, Ffatri Fenter yw'r gwasanaeth i chi!

Gall ein tîm eich cynorthwyo i brofi gwerth y syniad busnes gan eich galluogi i barhau i dderbyn budd-daliadau neu i gyflawni ymrwymadau personol e.e. astudiaethau coleg a chyfrifoldebau gofal teulu.

Os hoffech gymryd mantais ar hyn, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â: **Manon** neu **Elen** ar **01407 762 012** neu e-bostio: [manon.llwyd@menterabusnes.co.uk](mailto:manon.llwyd@menterabusnes.co.uk) [elen.foulkes@menterabusnes.co.uk](mailto:elen.foulkes@menterabusnes.co.uk)



## Chwilio am gyfieithwyr

- Sy'n ymfalchïo yn eu cyfieithu graenus, naturiol, proffesiynol
- Sy'n medru cyfieithu dogfennau o bob math
- Sy'n cynnig prisiau gostyngol i fudiadau cymunedol:

**£30 am fil o eiriau** ac i gyrrff gwirfoddol ac elusennol, **£45 am fil o eiriau**

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ac yn cynnal cyrsiau cyfieithu a sesiynau gloywi iaith yn ogystal. Mae popeth y gallwch ei gyfieithu eich hun yn gyfieithiad nad oes yn rhaid talu amdano!

Cysylltwch â ni [www.cyfieithucymunedol.org](http://www.cyfieithucymunedol.org) [post@cyfieithucymunedol.org](mailto:post@cyfieithucymunedol.org)

## YMUNWCH Â'R YMGYRCH WYTHNOS HINSAWDD

Newid hinsawdd yw un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu Cymunedau ar bob lefel yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae Cyngor Gwynedd, fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd, wedi ymrwymo i darged uchelgeisiol o leihau ei hallyriadau carbon o 60% erbyn 2021.

Cynhelir Wythnos Hinsawdd ar **21-27 o Fawrth 2011** i ddangos sut y gallwn frwydro yn erbyn Newid Hinsawdd.

Gallwch fod yn rhan o Wythnos Hinsawdd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai syniadau posib :-

- Cynnal bore coffi carbon-isel.
- Codi arian ar gyfer prosiect amgylcheddol addas (e.e. cynnal diwrnod 'Gwisgo'n llachar' neu gwis dan olau kannwyll yn eich neuadd/tafarn lleol).
- Ewch ati i arddio: plannwch goeden a thyfwch eich bwyd eich hunain.
- Ailgylchwch – cynnal digwyddiad siop gyfnewid, e.e. cyfnewid dillad, teganau, offer a theclynnau, llyfrau neu DVDs.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Wythnos Hinsawdd ewch i <http://www.climateweek.com> neu am ragor o fanylion ar Gynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd cysylltwch â Marial Gwynn Edwards, Swyddog Cadwraeth Ynni – Codi Ymwybyddiaeth: [marialgwynnedwards@gwynedd.gov.uk](mailto:marialgwynnedwards@gwynedd.gov.uk) neu 01286 679266

Cyngor Carbon Isel → Gwynedd Carbon Isel



Helpu Gwynedd i leihau  
ei Hôl Troed Carbon  
Help Gwynedd reduce  
its Carbon Footprint

## BBC Plant Mewn Angen – Grantiau Bychain



**BBC**

**Plant Mewn Angen  
Children in Need**

© BBC 2007 Elusen cofrestredig Cymru a Lloegr Registered Charity England & Wales 802052 Alban Scotland SC039557

Rhoddir grantiau i fudiadau dielw sy'n gweithio er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc difreintiedig. Mae'r Rhaglen Grantiau Bychain yn rhoi grantiau o hyd at £10,000 y flwyddyn am fwyafrif o dair blynedd.

Mae modd cyflwyno cais erbyn y dyddiadau cau canlynol: 15fed, Ebrill 2011, 15fed, Gorffennaf a 15fed o Hydref.

Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno ar-lein trwy eu gwefan [www.bbc.co.uk/pudsey](http://www.bbc.co.uk/pudsey). Am fwy o wybodaeth ffoniwch 029 2032 2383 neu e-bostiwrch [pudsey@bbc.co.uk](mailto:pudsey@bbc.co.uk)

## Y Gronfa Benthyciadau i Fentrau Cydweithredol

Nod y Gronfa Benthyciadau i Fentrau Cydweithredol yw cryfhau maint a chwmpas y sector cydweithredol drwy ddarparu benthyciad moesol a hygyrch. Dim ond i fentrau cydweithredol y caniateir benthyciad. Croesewir ceisiadau am fenthyciadau gan fentrau cydweithredol newydd a phresennol y mae arnynt angen cyllid benthyciad rhwng £5,000 a £75,000 er mwyn: sefydlu menter cydweithredol newydd; ehangu ei maint a'i chwmpas; helpu pryniant gan weithwyr neu ddilyniant busnes; prynu eiddo neu fusnes; prynu offer cyfalaf neu greu cyfalaf gwaith. Mae rhagor o fanylion ar gael ar [www.co-operativeloanfund.co.uk/about.html](http://www.co-operativeloanfund.co.uk/about.html)

## Rhaglen Arloesi'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru

Mae'r Gronfa Loteri Fawr (BIG) wedi lansio'i Rhaglen Awydd am Arloesi, fydd yn buddsoddi hyd at £5 miliwn mewn prosiectau fydd yn ymdrechu i ddod o hyd i atebion newydd i broblemau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg ac sy'n bodoli eisoes yng Nghymru. Mae'r rhaglen wedi cael ei lansio i helpu pobl i wireddu eu syniadau arloesol.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd y Gronfa'n dyrannu grantiau gwerth rhwng £20,000 a £1 miliwn trwy'r rhaglen. Mae'r Gronfa'n gwahodd ceisiadau gan amrywiaeth eang o sectorau a mudiadau er mwyn canfod a chyllido'r syniadau mwyaf arloesol. Am fwy o wybodaeth ewch i [www.biglotteryfund.org.uk/prog\\_big\\_innovation](http://www.biglotteryfund.org.uk/prog_big_innovation)

## Ymddiriedolaeth 'Naturesave'

Mae Ymddiriedolaeth 'Naturesave' wedi cyhoeddi y bydd yn awr yn darparu grantiau 'sbarduno' i brosiectau ynni adnewyddol cymunedol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i helpu'r cymunedau hynny yn arbennig rhai nad oes ganddynt y cyfalaf dechreuol i gyflawni'r holl waith cychwynnol er mwyn cyrraedd y cam cynllunio ac, yn bwysicach na dim, er mwyn i'r gymuned gadw cymaint â phosibl o reolaeth ar yr incwm gweithredu unwaith i'r prosiect ddechrau llwyddo. Mae grantiau ar gael pa fath bynnag o ddull cynhyrchu pŵer adnewyddol y mae'r gymuned yn ei ystyried. Gellir gwneud cais ar unrhyw adeg. Am fwy o wybodaeth ewch i [www.naturesave.co.uk/trust\\_naturesave.html](http://www.naturesave.co.uk/trust_naturesave.html)

## Y Porth Ymgysylltu

Caewyd y rownd ddiweddaraf o gyflwyno Holiadur Cyn Cymhwys Y Porth Ymgysylltu ar y 24ain, Ionawr 2011. Derbyniwyd 300 o holiaduron ar draws pob ardal yng Nghymru. Bydd y mudiadau llwyddiannus yn cael gwybod a ydynt wedi eu cynnwys ar y rhestr Cyflenwyr Cymeradwy erbyn mis Mawrth a byddant wedyn yn derbyn cynigion i dendro yn syth.

Yn dilyn derbyn gwybodaeth am gyflenwyr newydd fe fydd sesiwn 'Gwahoddiad i Dendro' yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl fel bod mudiadau newydd (a rhai sydd yn gymwys yn barod) yn cael arweiniad/hyfforddiant ar sut i lenwi ffurflen dendro. Bydd gwybodaeth am y digwyddiadau ar wefan Mantell Gwynedd neu drwy e-bost gan yr Ymgynghorydd Lleol.

Os yw rhai mudiadau wedi newid staff/cyswllt ers cyflwyno'r Holiadur Cyn Cymhwys gwreiddiol mae'n bwysig eich bod un ai yn gadael i'r Ymgynghorydd Lleol **Carys Williams 01286 672626**, epost: [carys@mantellgwynedd.com](mailto:carys@mantellgwynedd.com) wybod neu gysylltu yn uniongyrchol â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol**  
Cronfa Gymdeithasol Ewrop

**Europe & Wales: Investing in your Future**  
European Social Fund

## Parti 'Dolig Ffermwyr Ifanc



Cynhaliwyd parti 'dolig Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn Ninas Mawddwy ble cynhaliwyd cystadlaethau'r Llysgennad a Llys-genhades y Flwyddyn. Roedd 7 aelod yn cael eu cyfwrdd gan y beirniaid Mrs Nia Wyn Jones, Llywydd y Sir a Miss Bethan Wyn Roberts. Llongyfarchiadau i'r buddugwyr Dewi Pugh o glwb Dinas Mawddwy a Catrin Davies o glwb Cwmtirmynach. Diolch hefyd i Undeb Amaethwyr Cymru a NFU Cymru Cangen Meirionnydd am noddi'r ddwy gystadleuaeth. Bydd Rali Ffermwyr Ifanc Meirionnydd eleni yn cael ei chynnal ar fferm Defaidty, Cwmtirmynach ar Fehefin y 4ydd. Mae hwn yn ddigwyddiad arbennig yng nghalendr y Ffermwyr Ifanc – dewch i gefnogi.



### • Hyfforddiant Rheoli Amser

Hyfforddwr: Eileen Murphy

**16eg Mawrth 2011** - 9.30 hyd at 4.00 o'r gloch  
Cost : £10 Aelodau Mantell Gwynedd £15 Di-aelod sector gwirfoddol £40 Sector Preifat a Statudol  
Lleoliad: Ystafell Gyfarfod, C.I.L. De Gwynedd, Parc Busnes, Porthmadog.

Cysylltwch â Mantell Gwynedd erbyn y 7fed o Fawrth 2011

### • Tystysgrif Diogelwch Bwyd Lefel 2 mewn Arlwy

Hyfforddwr: Lindsey Rogers

**10 Mawrth 2011** - 9.30yb - 4.30yp

Cost: £45 Aelodau Mantell Gwynedd £55 Di-aelod sector gwirfoddol £65 Sector Preifat a Statudol  
Mae Tystysgrif gan Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd yn cael ei chyflwyno i'r dysgwyr llwyddiannus.  
Lleoliad:- Ystafell Pablig, Adeilad yr Institiwt, Caernarfon  
Cysylltwch â Mantell Gwynedd erbyn y 4ydd o Fawrth 2011

### • Cwrs Cymorth Cyntaf Brys

Hyfforddwr: Andy Thompson

**28ain Mawrth 2011**, 9.30yb hyd at 4.30yp

Cost: £30 Aelodau Mantell, £40 Di Aelod Sector Gwirfoddol, £50 Sector Preifat a Statudol  
Lleoliad: Ystafell Gyfarfod, CIL De Gwynedd, Parc Busnes, Porthmadog. Cysylltwch â Mantell Gwynedd erbyn y 23ain o Fawrth 2011

## Rhaglen 'Cyrsgiau i Gymunedau' (CCC)

Hyfforddiant fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CGS), Canolfannau Gwirfoddoli a CGGC (WCVA) ar draws Gogledd Cymru

Dyddiad	Lleoliad a Cyswllt	Hyd
Cyflwyniad i adrodd straeon mewn sefydliadau - <b>NEWYDD</b>		
3 Mawrth 2011	AVOW, Wrecsam	1 diwrnod
Rheoli Risg ar draws eich mudiad – llefydd am ddim ar gael holwch i gael gwybod		
29 Mawrth 2011	Wrecsam	½ diwrnod
Cyllidebau Cyfranogol		
30 Mawrth 2011	Bangor	1 diwrnod

I wneud ymholiadau cyffredinol ynghylch Rhaglen Cyrsgiau ar Gymunedau Cymru, cysylltwch â **Lein Gymorth CGGC (WCVA)** ar **0800 2888329** neu [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

## “Diwrnod Gwybodaeth Mawr” Cymdeithas Y Byddar Gogledd Cymru

Mynediad am ddim

Venue Cymru, Y Promenâd, Llandudno.  
**Dydd Mercher, Mawrth 30ain 2011**  
10yb – 4yp

Arddangoswyr yn Cynnwys:-  
Cyflenwyr Offer Arbennig, Stodinau Gwybodaeth,  
Gweithdai, Mudiadau ar gyfer y Byddar, Colegau a  
Grwpiau Gwasanaethau Gwirfoddol.

## GWASANAETHAU TRAIS YN Y CARTREF DE GWYNEDD

### AELODAETH BWRDD

Mae Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd yn fudiad sydd yn arbenigo mewn darparu cefnogaeth a gwybodaeth i Ddynion, Merched a Phlant sydd yn dioddef Trais yn y Cartref. Mae'r mudiad wedi gwneud adolygiad strwythur bwrdd ac wedi cynyddu niferoedd y lleoedd ar gael. Rydym yn awyddus i recriwtio ymddiriedolwyr newydd i gynyddu sgiliau ac arbenigedd y bwrdd. Am fwy o wybodaeth neu ffurflen gais ffoniwch **01766 830878** neu e-bostiwch [cif@degwynedd.co.uk](mailto:cif@degwynedd.co.uk)

Os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â **Delyth Vaughan**  
**01286 672626**, [delyth@mantellgwynedd.com](mailto:delyth@mantellgwynedd.com). Neu i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cysylltwch  
ag **Ellen ap Dafydd** **01341 422575** [EllenapDafydd@mantellgwynedd.com](mailto:EllenapDafydd@mantellgwynedd.com)